

# Cynllun Gweithredu'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuencid

Mae gwella'r bartneriaeth rhwng gwasanaethau datganoledig a heb eu datganoli er mwyn cyflenwi cyfiawnder ieuencid yng Nghymru yn flaenoriaeth a rennir gan Lywodraethau'r DU a Chymru. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn nodi ymrwymiad ar y cyd i archwilio'r argymhellion a wneir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid.

Maes Thematig	Argymhelliad (carreg filltir)	Cam(au) gweithredu yn cynnwys	Amserlen ddiweddaraf	Y diweddaraf
<b>Atal</b>	Ceisio cadw cyllid a neilltuir yn benodol ar gyfer gweithgarwch atal a dargyfeirio cyn y llys y Timau Troseddau Ieuencid trwy'r Gronfa Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol.	Ar ôl cyhoeddi adroddiad gwerthuso'r Grant Plant a Chymunedau ym mis Mai 2019, ceisio cyllid wedi'i sicrhau er mwyn helpu i gyflawni uchelgeisiau atal, ymyrraeth gynnar a dargyfeirio.	<b>CWBLHAWYD</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dim camau pellach. Mae'r gronfa Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol yn awr yn rhan o'r Grant Plant a Chymunedau. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro cyllid Timau Troseddau Ieuencid fel rhan o hwn i nodi unrhyw newidiadau.</li> </ul>
	Datblygu dull cenedlaethol ar gyfer gweithgarwch atal wedi'i dargedu y Timau Troseddau Ieuencid, a sicrhau ei fod yn cael ei ymgorffori mewn model fframwaith ar y cyd ar gyfer Cymru.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mapio'r mesurau presennol o ran dulliau casglu data, gofynion adrodd ac ymyriadau wedi'u targedu a gyflenwir yn lleol ac yn genedlaethol, gan gynnwys gwaith atal mewn cyfiawnder ieuencid, gweithgarwch gwaith ieuencid a gwasanaethau awdurdod lleol, i bennu arferion da wrth gyflawni canlyniadau llesiant.</li> <li>Ystyried a fyddai datganiad safbwynt ar gyfer y system gyfan i Gymru ar drefniadau atal mewn cyfiawnder ieuencid yn briodol.</li> </ul>	<b>CWBLHAWYD</b>  <b>PARHAUS</b> – Tymor hir (2022/2023+)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cafodd Cynllun Braenaru ei gomisiynu (Tîm Troseddau Ieuencid Ceredigion a Phrifysgol Aberystwyth) i bennu pa fath o weithgarwch atal sy'n cael ei gynnal ledled Cymru.</li> <li>Mae arolwg o'r 17 o Dimau Troseddau Ieuencid yng Nghymru a Lloegr wedi'i gwblhau a bydd y canfyddiadau yn cael eu defnyddio i helpu i ddatblygu'r ffrwd waith Atal.</li> <li>Gan adeiladu ar y Cynllun Braenaru a'r arolwg, ym mis Ebrill, bydd grŵp gorchwyl a gorffen yn dechrau ystyried yr hyn a ddysgwyd ac yn datblygu Fframwaith Atal Cyfiawnder Ieuencid i Gymru a fydd yn canolbwyntio ar weithdrefnau.</li> </ul>
	Monitro gweithgarwch atal yn well er mwyn dangos yr effaith a gwella'r sylfaen dystiolaeth.	Archwilio'r potensial ar gyfer defnyddio deunyddiau presennol Dyfed Powys i ddarparu tystiolaeth well, fwy cyson o weithgarwch ac effeithiolrwydd.	<b>PARHAUS</b> – Tymor hir (2022/2023+)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae adroddiad y Cynllun Braenaru (sydd wedi'i grybwyll uchod) wedi cael ei gyhoeddi gan Ganolfan Adnoddau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (gweler 'A Child First Pathfinder Evaluation - Ceredigion Youth Justice and Prevention Service: Towards a Common Preventions Approach Across Wales').</li> <li>Mae gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid brosiect cenedlaethol i archwilio sut y gellir monitro gweithgarwch atal. Yn hytrach na dyblygu'r gweithgarwch, bydd ffrwd waith y Glasbrint yn cysylltu â'r gweithgarwch hwn oherwydd bydd unrhyw argymhellion yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Adolygir yr angen am ragor o weithgarwch y Glasbrint yn 2023.</li> </ul>
	Dylai profiadau niweidiol yn ystod plentyndod gael eu nodi pan ddaw plant i sylw'r heddlu a dylai Timau Troseddau Ieuencid gael gwybod.	Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod i'w cyflwyno i'r drafodaeth ehangach ynghylch y strategaeth atal, ac ailfframio sut y caiff profiadau niweidiol yn ystod plentyndod eu cynnwys, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr argymhelliad sydd eisoes yno.	<b>CWBLHAWYD</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd, yn hytrach na rhaglen y Glasbrint, yn bwrw ati gyda'r cam gweithredu hwn. Dim camau pellach ar gyfer y Glasbrint.</li> </ul>
	Cysoni dulliau adrodd/amodau ariannu ar draws cyfraniadau Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu at weithgarwch atal a dargyfeirio cyn y llys er mwyn lleihau biwrocratiaeth.	Amherthnasol – gweler y diweddariad.	Amherthnasol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Er mwyn osgoi dyblygu, mae'r gweithgarwch hwn yn cael ei weithredu gyda'r argymhellion Dargyfeirio cyn y llys.</li> </ul>
<b>Dargyfeirio cyn y llys</b>	Cefnogi dulliau presennol o ddargyfeirio cyn y llys drwy'r cynlluniau Bureau a Divert (Triage gynt).	<ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i gefnogi ac ariannu gwaith dargyfeirio cyn y llys i leihau nifer y bobl ifanc sy'n ymuno â'r system cyfiawnder ieuencid am y tro cyntaf.</li> <li>Mae cadw rheolaeth dros gyllid a dylanwad yn hanfodol ar gyfer gwireddu amcanion Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill yn y system gyfiawnder ehangach.</li> </ul>	<b>CWBLHAWYD</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi gweithgarwch Timau Troseddau Ieuencid drwy gyllid grant. Dim camau pellach.</li> </ul>

	Datblygu arferion dargyfeirio.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithio gyda'r heddluoedd a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau i amlygu, datblygu a rhannu arferion da a sicrhau dull cyson ledled Cymru.</li> <li>Archwilio a yw'r Heddlu yn rhoi gwybod i Dimau Troseddau Ieuencid yn gyson ynglŷn â datrysiadau cymunedol/camau adfer cyfiawnder ieuencid.</li> <li>Gweithio gyda'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a Chomisiynydd Plant Cymru i bennu hawliau plant pan roddir cam adfer, gan gynnwys mesurau diogelu cyfreithiol a'r cyngor a roddir i blant.</li> <li>Archwilio'r potensial ar gyfer prosiect dargyfeirio canabis, yn unol ag argymhellion Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.</li> </ul>	<b>PARHAUS</b> – Tymor hir (2022/2023+)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid wedi cwblhau dadansoddiad o ganfyddiadau hunanarchwilio'r Timau Troseddau Ieuencid o'r Safonau ar gyfer Plant yn y System Cyfiawnder Ieuencid – Safon un – Datrysiadau y tu allan i'r llys, o'r wybodaeth a ddychwelwyd gan Dimau Troseddau Ieuencid yng Nghymru.</li> <li>Mae adroddiad wedi'i lunio o'r defnydd a wneir o Ddatrysiadau Cymunedol ledled Cymru sydd wedi amlygu rhywfaint o anghysondeb o ran eu defnydd, yr ymchwiliir ymhellach iddynt.</li> <li>Bydd canfyddiadau'r uchod yn bwydo i mewn i ymarfer cwmpasu a fydd yn cael ei gynnal gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid i bennu pa fath o arferion a geir ledled Cymru mewn perthynas â dargyfeirio cyn y llys a defnyddio datrysiadau anhroseddol, gan gynnwys ystyried sut y mae'r model Bureau o ddargyfeirio cyn y llys a dulliau eraill yn gweithio. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o gyflenwi cyfres o weithdai thematig a fydd hefyd yn archwilio ymyriadau a gynigir ar y cam cyn y llys.</li> <li>Mae prosiect ymchwil gan Brifysgol De Cymru (Llais y Plentyn mewn Achosion Cyn y Llys) wedi llunio adroddiad briffio ar y cynnydd hyd yma a'r camau nesaf. Mae'r prosiect wedi'i ymestyn i fis Mehefin 2023 ar ôl cyfnod pan gafodd y gweithgarwch ei atal dros dro.</li> </ul>
	Cysoni dulliau adrodd /amodau ariannu ar draws cyfraniadau Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau at weithgarwch atal a dargyfeirio cyn y llys, er mwyn lleihau biwrocratiaeth.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dadansoddi cyfraniadau at atal a dargyfeirio cyn y llys o gynlluniau cyfiawnder ieuencid blynyddol y Timau Troseddau Ieuencid a chwilio am gyfleoedd i lywio sut y gellid bwrw ymlaen i gysoni a defnyddio trefniadau cyllid cyfun.</li> </ul>	<b>CWBLHAWYD</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid wedi cyd-drafod â Llywodraeth Cymru a swyddfydd Comisiynwyr Heddlu a Throseddau i fapio'r cyllid ar gyfer gweithgarwch atal a dargyfeirio cyn y llys ledled Cymru er mwyn nodi'r hyn y mae'n ei gefnogi ac i gael darlun cywir o'r gweithgarwch presennol.</li> </ul>
<b>Y Gymuned</b>	Gweithio gyda'r heddlu i sicrhau bod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn cael eu nodi pan ddaw plant i sylw'r heddlu a bod y Timau Troseddau Ieuencid yn cael gwybod.	Amherthnasol – gweler y diweddariad	Amherthnasol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dilëwyd y cam gweithredu hwn oherwydd dyblygu gyda meysydd gwaith eraill y Glasbrint (Atal). Dim camau pellach.</li> </ul>
	Cyflwyno trefniadau Rheoli Achosion Uwch yn genedlaethol ar gyfer plant sydd ag anghenion cymhleth a risg uchel sydd dan oruchwyliaeth Timau Troseddau Ieuencid.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i ddatblygu, cefnogi a gwerthuso'r cynllun peilot Rheoli Achosion Uwch mewn pedwar Tîm Troseddau Ieuencid ledled y De (Caerdydd, Cwm Taf, Bro Morgannwg a'r timau a arferai fod yn rhan o Fae'r Gorllewin), hyd at fis Mawrth 2020. Mae'r cynllun peilot wedi dod i ben bellach ac mae'n rhan o'r gwaith o gyflwyno Rheoli Achosion Uwch yn genedlaethol.</li> <li>Cefnogi a datblygu gwaith yn yr ardaloedd prawf (Blaenau Gwent Caerffili, Sir Gaerfyrddin a Sir y Fflint) i ymgorffori ymarfer Rheoli Achosion Uwch (wedi'i gwblhau).</li> <li>Cyflwyno hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma i bob Tîm Troseddau Ieuencid yng Nghymru, gan gynnwys datblygu deunyddiau i helpu i roi trefniadau ar waith.</li> <li>Datblygu cymwysterau Agored: lefel 1: ymwybyddiaeth sylfaenol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod; lefel 2: dealltwriaeth o'r Model Gwella ar ôl Trawma neu'r ddamcaniaeth sy'n sail i ymarfer sy'n ystyriol o drawma; a lefel 3: ymarferwyr Rheoli Achosion Uwch.</li> </ul>	<b>PARHAUS</b> Tymor hir (2022/2023+)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cytunwyd ar y meini prawf a'r broses atgyfeirio at Wasanaeth Triniaeth ac Ymgynghori Fforensig y Glasoed Cymru Gyfan a'r ddarpariaeth Rheoli Achosion Uwch. Mae darpariaeth Rheoli Achosion Uwch ar gael i bob Tîm Troseddau Ieuencid yng Nghymru ar gyfer plant sydd mewn cysylltiad gwirfoddol a statudol â Thimau Troseddau Ieuencid.</li> <li>Mae Gwasanaeth Triniaeth ac Ymgynghori Fforensig y Glasoed Cymru yn cyd-drafod â phob Tîm Troseddau Ieuencid i bennu pa gymorth penodol sydd arnynt ei angen i weithredu darpariaeth Rheoli Achosion Uwch, gyda chefnogaeth Tîm Troseddau Ieuencid Cwm Taf (gweler isod).</li> <li>Mae'r gwaith o fapio darpariaeth iechyd Timau Troseddau Ieuencid ledled Cymru wedi'i gwblhau i bennu pa wasanaethau y mae gan Dimau Troseddau Ieuencid fynediad atynt a lle y ceir bylchau. Cafodd y gwaith hwn ei wneud er mwyn bod o gymorth i gyflwyno darpariaeth Rheoli Achosion Uwch ac arferion sy'n ystyriol o drawma.</li> </ul>
	Cynorthwyo'r sector cyfiawnder ieuencid gydag adnoddau, hyfforddiant a chymwysterau i gyflenwi arferion sy'n ystyriol o drawma.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i ddarparu hyfforddiant ar ymarfer sy'n ystyriol o drawma er mwyn gwella gwybodaeth ymarferwyr neu'r broses gwella sy'n ystyriol o drawma yn y gymuned ac yn y ddalfa.</li> </ul>	<b>PARHAUS</b> - Tymor canolig (2020/21 – 2021/22)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid wedi comisiynu'r gwaith o ddatblygu Gwobr Ymarfer Effeithiol sy'n ystyriol o drawma fel rhan o'i fframwaith cymwysterau Ymarfer Effeithiol, a gynigir drwy'r Sefydliad Cyfiawnder Ieuencid gan ddisodli'r cymwysterau Agored (gweler yr argymhelliad blaenorol). Cafodd y Wobr ei lansio ym mis Gorffennaf 2021 gyda 51 o leoedd â chymorthdal ar gyfer Timau Troseddau Ieuencid yng Nghymru.</li> <li>Comisiynodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Dîm Troseddau Ieuencid Cwm Taf i ddatblygu adnoddau i alluogi ymarferwyr i gynnal asesiadau a chynllunio ymyriadau drwy edrych ar y sefyllfa gan fod yn ystyriol o drawma. Mae'r deunyddiau hyn wedi'u rhaeadru drwy Ganolfan Adnoddau y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a chafodd cyfres o 13 o weithdai eu cynnal rhwng mis Hydref 2021 a mis Mawrth 2022. Mae Tîm Troseddau Ieuencid Cwm Taf hefyd yn rhoi cymorth i Dimau Troseddau Ieuencid unigol i'w helpu i ddefnyddio trefniadau Rheoli Achosion Uwch.</li> </ul>
	Cysoni'r trefniadau gyda Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tîm Troseddau a Chyfiawnder Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r tîm Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a rhanddeiliaid perthnasol eraill i archwilio sut y gellir bwrw ymlaen i wneud hyn.</li> </ul>	<b>PARHAUS</b> – Tymor hir (2022/2023+)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y gwaith o gysoni â'r strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael ei wneud drwy'r ffrwd waith Atal, fel rhan o ddatblygu, o bosibl, Fframwaith Atal Cyfiawnder Ieuencid i Gymru.</li> </ul>

<p><b>Ailsefydlu a Phontio</b></p>	<p>Mabwysiadu cynnig y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ar gyfer Ailsefydlu Adeiladol.</p>	<p>Ystyried sut i fabwysiadu cynnig y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, gan ystyried arweiniad cenedlaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac Adolygiad Farmer.</p>	<p><b>PARHAUS</b> - Tymor hir (2022/2023)</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid wedi trefnu hyfforddiant ar Ailsefydlu Adeiladol ar gyfer y sector cyfiawnder Ieuencid yng Nghymru.</li> <li>Mae grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei sefydlu i ystyried a oes angen canllawiau penodol i Gymru i adlewyrchu'r cyd-destun Cymreig penodol ar gyfer cyflawni. Pe bai angen canllawiau o'r fath, byddent yn dwyn ynghyd yr holl ganllawiau, modelau ac argymhellion mewn un man, er mwyn cefnogi trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn y sector cyfiawnder Ieuencid, gan hefyd adlewyrchu rôl y gwasanaethau datganoledig yn llawn.</li> <li>Mae argymhellion o'r ffrwd waith wedi'u hymgorffori yng Nghanllawiau Bwrdd Rheoli'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ar lefel strategol, a byddant hefyd yn cael eu hadlewyrchu yng Nghanllawiau Rheoli Achosion y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, sy'n fwy gweithredol eu natur, ac sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd.</li> </ul>
	<p>Datblygu gwaith gyda theuluoedd, gan gynnwys paratoi'r teulu ar gyfer pan fydd y plentyn yn cael ei ryddhau.</p>	<p>Tim Troseddu a Chyfiawnder Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynigion i integreiddio'r argymhelliad hwn â'r ffrwd waith cefnogi troseddwyd (oedolion) a'u teuluoedd yn y Fframwaith i Gefnogi Newid Positif ar gyfer y Rheini sydd mewn Risg o Droseddu yng Nghymru 2018-2023.</p>	<p><b>PARHAUS</b> - Tymor hir (2022/2023+)</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y Timau Troseddau Ieuencid yn cael eu harolygu i nodi pa ddarpariaeth cymorth i deuluoedd sydd ar gael ar hyn o bryd, a oes unrhyw fylchau a sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain i wella cymorth ailsefydlu sy'n canolbwyntio ar y teulu.</li> <li>Mae'r ffrwd waith Y Teulu a Phartneriaid yn y Fframwaith i Gefnogi Newid Positif ar gyfer y Rheini sydd mewn Risg o Droseddu yn cael ei diweddarau ar hyn o bryd, gan adeiladu ar y llwyddiannau a gafwyd o dan y Fframwaith hyd yma yn ogystal â gwaith 'Family Trailblazer' Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) yng Nghymru.</li> <li>Bydd grŵp strategol newydd Y Teulu a Phartneriaid yn canolbwyntio ar gynnydd parhaus yng nghyd-destun amgylchedd y carchar a lleoliadau prawf, gan hefyd ehangu'r gwaith i gynnwys meysydd fel cyfiawnder Ieuencid, addysg, y llysoedd a phlisma. Bydd y gwaith cysoni â'r ffrwd waith hon yn y Glasbrint yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith diweddarau, er mwyn sicrhau y byddwn yn cyflawni mewn perthynas ag amcan y Glasbrint.</li> </ul>
	<p>Ailedrych ar gynigion i gyflwyno partneriaethau ailintegreiddio ac ailsefydlu mewn deddfwriaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Archwilio ac ymgynghori â phartneriaid ailsefydlu ynghylch partneriaethau ailintegreiddio ac ailsefydlu.</li> <li>Adolygu cynigion (i gyflwyno deddfwriaeth ar bartneriaethau ailintegreiddio ac ailsefydlu) o'r cynllun cyflawni ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf, y Strategaeth Cyfiawnder Ieuencid ar y cyd i Gymru a gyhoeddwyd yn 2014.</li> </ul>	<p><b>PARHAUS</b> - Tymor hir (2022/2023+)</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid Cymru a Phanel Cyngori Cyfiawnder Ieuencid Cymru wedi adolygu'r argymhelliad hwn ac wedi dod i'r canlyniad na ddylai'r Glasbrint fynd ar drywydd ceisio dyletswydd ddeddfwriaethol mewn perthynas â Phartneriaethau Ailintegreiddio ac Ailsefydlu. Fodd bynnag, cafodd sawl awgrym ei wneud i gryfhau'r canllawiau a'r trefniadau partneriaeth presennol. Gweithredir ar hyn o dan yr argymhelliad Ailsefydlu Adeiladol.</li> </ul>
	<p>Datblygu dulliau sy'n ystyriol o drawma i'r rheini sy'n pontio i wasanaethau oedolion.</p>	<p>Gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i nodi ymarfer sy'n ystyriol o drawma, fel rhan o'r gwaith ehangach o ddiweddarau'r canllawiau ar bontio i Gymru.</p>	<p><b>PARHAUS</b> - Tymor hir (2022/2023+)</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r ddogfen Pontio o Wasanaethau Ieuencid i Wasanaethau Oedolion wedi'i diweddarau i gynnwys canllawiau ar sut i bontio mewn modd sy'n ystyriol o drawma. Mae'r canllawiau diwygiedig wedi'u cyhoeddi ar <a href="http://wefan.Gov.uk">wefan.Gov.uk</a>.</li> <li>Mae'r llyf gwaith yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf i ymchwilio i'r broses bontio – a ydy'r canllawiau presennol yn cael eu defnyddio'n effeithiol a sut y gellir bod yn fwy ystyriol o drawma wrth bontio?</li> </ul>
<p><b>Y Ddalfa</b></p>	<p>Pob plentyn sy'n byw yng Nghymru sy'n cael dedfryd o garchar neu'n cael ei gadw yn y ddalfa i gael ei roi mewn uned fach yng Nghymru, ar sail model sy'n ystyriol o drawma, gan ddarparu gwasanaeth "prif ganolfan a lloerennau" i'r gymuned ar gyfer achosion cymhleth a risg uchel, sydd dan oruchwyliaeth y Tim Troseddau Ieuencid, a phan fydd plentyn yn cael ei ailsefydlu.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dadansoddi'r gofyniad a'r angen a ragwelir ar gyfer Cymru.</li> <li>Nodi opsiynau posibl i ddiwallu angen ac ymchwilio i ddull o gomisiynu, lleoli, gweithredu, darparu gwasanaethau arbenigol, monitro a goruchwyllo ar gyfer cyfleuster diogel.</li> <li>Sicrhau cyllid a chymeradwyaeth i'w gweithredu.</li> </ul>	<p><b>PARHAUS</b> - Tymor hir (2022/2023+)</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae amcanion y llyf gwaith, a gafodd eu diweddarau ym mis Ionawr 2022, yn awr yn canolbwyntio ar ddau nod cyffredinol:       <ol style="list-style-type: none"> <li>Ymwreiddio arferion sy'n ystyriol o drawma ar draws yr ystad ddiogeledd Ieuencid bresennol - Cyflawni yn erbyn nod y Glasbrint i sefydlu darpariaeth ddiogel sy'n ystyriol o drawma, gan dynnu ar yr arferion gorau o ran gweithio amlasiantaethol i ddatblygu canolfan ragoriaeth gyda darpariaeth iechyd meddwl, addysg a hyfforddiant gofal iechyd.</li> <li>Datblygu strategaeth tymor hir '2030' ar gyfer yr ystad Ieuencid – Cyflawni yn erbyn nod y Glasbrint y cytunwyd arno i blant Cymru gael eu gosod mewn lleoliad yn agos i'w cartrefi, a thynnu ar yr hyn a ddysgir o'r Prosiect Cartrefi Bach a fydd yn edrych ar lesiant yn ogystal ag anghenion yn yr ystad ddiogeledd Ieuencid yn y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.</li> </ol> </li> <li>Bydd y gwaith cychwynnol yn canolbwyntio ar yr amcan arferion sy'n ystyriol o drawma, gyda gwaith ar y strategaeth ar gyfer y tymor hwy yn cael ei wneud yn hwyrach yn ystod y flwyddyn hon, wrth i'r cyd-destun strategol ddatblygu. Mae dau grŵp gorchwyl a gorffen wedi'u sefydlu i ddatblygu'r gwaith hwn – y naill yn canolbwyntio ar systemau a'r llall yn canolbwyntio ar arferion. Mae'r ddau grŵp yn bwriadu cyfarfod am y tro cyntaf cyn diwedd mis Mawrth a byddant yn canolbwyntio ar fwrw ati gyda'r gwaith hwn yn gyflym.</li> <li>Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos ar ddatblygu'r gwaith ar y Prosiect Cartrefi Bach yn barhaus. Disgwylir i gynnig amlinellol ar gyfer y Prosiect Cartrefi Bach gael ei gyflwyno erbyn mis Hydref 2022, er mwyn iddo gael ei ystyried gan y Gweinidog. Bydd y cynnig hwn yn llywio'r strategaeth '2030' y disgwylir iddi fod yn derfynol erbyn mis Mawrth 2023.</li> </ul>

	<p>Asesu darpariaeth y ddalfa ddiogel i ddiwallu anghenion plant sydd angen pob math o ofal diogel: gofal iechyd meddwl cleifion mewnol, dadwenwyno ar gyfer camdefnyddio sylweddau neu'r rheini sy'n cael eu rhoi ar leoliad yn unol â gorchymyn llesiant diogel, gan gynnwys gwelyau cyfiawnder ieuencid.</p>			
<p><b>Goruchwylio systemau</b></p>	<p>Ystyried sut mae model cenedlaethol ar gyfer gwasanaeth cyfiawnder ieuencid cenedlaethol sy'n ystyriol o drawma yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc yng Nghymru.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pennu manylion y model, gan gynnwys cyllid, pwerau, cyfrifoldebau a llywodraethiant er mwyn cryfhau'r trefniadau partneriaeth presennol a chynnal gwasanaeth cyfiawnder ieuencid a noddir ar y cyd ac sydd yng nghyberchnogaeth Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.</li> <li>• Adolygu opsiynau ar gyfer setiau data'r dyfodol, a dulliau asesu i gynorthwyo system sy'n ystyriol o drawma.</li> <li>• Ymgysylltu ag Arolygiaethau i sicrhau bod y gofynion arolygu'n cyd-fynd â'r model cyflenwi system gyfan sy'n ystyriol o drawma.</li> </ul>	<p>Amherthnasol</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ym mis Rhagfyr 2021, gofynnodd y ffrwd waith Goruchwylio systemau am gael oedi'r gweithgarwch dros dro er mwyn gallu ystyried a oedd angen parhau â'r ffrwd waith hon. Mae byrddau llywodraethu'r Glasbrint wedi cytuno na fydd y ffrwd waith yn parhau oherwydd bod digon o oruchwylio gweithgarwch yn digwydd drwy'r trefniadau presennol.</li> <li>• At hynny, mae'r Glasbrint wedi cynnig cyfle i gryfhau'r trefniadau gweithio a'r partneriaethau sy'n bodoli eisoes rhwng Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi Cymru, y Gwasanaeth Ieuencid yn y Ddalfa a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid wrth weithio tuag at nodau cyflenwi cyffredin.</li> <li>• Mae'r ffrwd waith Goruchwylio systemau yn grŵp ar y cyd â'r Glasbrint ar gyfer Troseddwy'r Benywaidd. Mae'r elfen Llywodraethu a System Gyfan o'r Glasbrint ar gyfer Troseddwy'r Benywaidd yn parhau i gael ei datblygu fel ffrwd waith yn unol â'r argymhellion a'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu.</li> <li>• Er mwyn i'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuencid gydymffurfio â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae adnodd sgrinio asesu'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i ddatblygu a fydd yn cael ei ystyried ar draws pob llif gwaith. Bydd y gwaith hwn yn cael ei fonitro drwy'r Bwrdd Prosiect Cyfiawnder Ieuencid.</li> </ul>